cymorth cymru
connect • strengthen • influence

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

MATERION CARTREF

Cyllideb Llywodraeth Cymru 2027-28

Y cartref cywir,
yn y lle iawn,
gyda'r cymorth cywir.









Cynnwys

Cyflwyniad	3
Beth yw gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai?	4
Pwysau ariannol a wynebir gan wasanaethau	6
Cynnydd yn y galw ac mewn cymhlethdod	8
Cyflog teg a chymorth i weithwyr rheng flaen	11
Yr hyn y mae ar wasanaethau ei angen yn 2027/28	14

Yr adroddiad hwn:

- Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan Cymorth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru i helpu Aelodau o'r Senedd i graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru am 2027/28.
- Mae'n seiliedig ar ddata a gafwyd gan 44 o ddarparwyr cymorth ym meysydd digartrefedd a chymorth tai, yn cynnwys elusennau bychan sy'n gweithredu mewn un neu ddau o awdurdodau lleol, elusennau mwy o faint sy'n gweithredu'n rhanbarthol neu'n genedlaethol, a chymdeithasau tai. Oherwydd bod y sefydliadau hyn yn darparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru, rydym yn hyderus bod ein data'n cynrychioli'r sector.
- Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys data o arolwg a wnaed o 277 o weithwyr rheng flaen ym meysydd digartrefedd a chymorth tai.

Cymorth Cymru yw'r corff trosfwaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd, cymorth ym maes tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein haelodau ac ar y bobl maent yn estyn cymorth iddynt. Mae ein haelodau'n darparu ystod eang o wasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl ymdopi â chyfnodau anodd, ailadeiladu eu hynanhyder, a byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yw llais cymdeithasau tai yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli 31 cymdeithas tai nid-er-elw sy'n darparu dros 170,000 o gartrefi i un ym mhob wyth aelwyd yng Nghymru. Mae ein haelodau yn gweithio ledled Cymru, gan ddarparu cartrefi a gwasanaethau i ystod eang o bobl. Fel eu corff masnach, rydym yn ymladd dros y pethau maent eu hangen i gefnogi eu cymunedau ac i sicrhau y gallwn gyda'n gilydd gyflawni ein gweledigaeth.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Katie Dalton, Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru katiedalton@cymorthcymru.org.uk
- Elly Lock, Pennaeth Polisi ac Ymchwil, Cartrefi Cymunedol Cymru elly-lock@chcymru.org.uk

Cyflwyniad

Dylai pawb gael lle diogel i'w alw'n gartref – a'r cymorth mae arnynt ei angen i fyw bywyd annibynnol a llawn. Mae gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yn newid ac arbed bywydau, a bydd cyllideb gyntaf tymor newydd y Senedd hon yn hanfodol i sicrhau y bydd modd iddynt barhau i gael yr effaith yma.

Maint yr her:

Mae digartrefedd yn parhau i effeithio ar lawer gormod o bobl yng Nghymru. Ar 31 Gorffennaf 2006, roedd ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru'n dangos y canlynol:

- **Roedd 10,535 o bobl yn byw mewn llety dros dro**
- **Roedd 2,386 o'r rhain yn blant dibynnol dan 16 oed**
- **Roedd 2,539 o bobl yn byw mewn gwesty neu lety Gwely a Brecwast**
- **Amcangyfrifwyd fod 155 o unigolion yn byw ar y stryd**

Prif ganfyddiadau:

Mae'r gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yn chwarae rhan holl bwysig mewn atal a lliniaru digartrefedd, gan helpu degau o filoedd o bobl bob blwyddyn i ymadfer ar ôl trawma, a byw'n ddiogel ac annibynnol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hyn wedi bod dan bwysau parhaus dros y ddegawd ddiwethaf, gan wynebu costau uwch, cyfyngiadau ar gyllid, twf anhygoel yn y galw, a chynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion cymorth. Mae'r data a gasglwyd gennym gan 44 o ddarparwyr cymorth ym meysydd digartrefedd a chymorth tai yn dangos y canlynol:

- **Mae 83% yn rhedeg gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai (HSG) a'r Grant Atal Digartrefedd (HPG) ar golled (66% oedd y ffigur y llynedd).**
- **Mae 57% yn defnyddio arian wrth gefn i gynnal gwasanaethau hanfodol.**
- **Ar gyfartaledd, dim ond am 1.5 mlynedd y gall darparwyr barhau i sybsideiddio'r gwasanaethau hyn cyn gorfod wynebu methu eu darparu neu eu cau i lawr.**
- **Adroddodd 68% am gynnydd yn y galw am eu gwasanaethau ers y flwyddyn ddiwethaf.**
- **Adroddodd 83% am gynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion cymorth ers y flwyddyn ddiwethaf.**

Galwad i weithredu:

Yn seiliedig ar ddata gan 44 o ddarparwyr gwasanaethau ym meysydd digartrefedd a chymorth tai, a 277 o weithwyr rheng flaen, **rydym yn galw am 16% o gynnydd yn yr arian ar gyfer y gwasanaethau hyn yng nghyllideb Llywodraeth Cymru am 2027/28.**

Beth yw gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai?

Mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn her gymhleth sy'n galw am nifer fawr o atebion cydgysylltiedig. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n buddsoddi mewn adeiladu'r tai cymdeithasol y mae ar Gymru eu hangen i roi diwedd ar ddigartrefedd – ac rydym ni'n eiriol dros gynnydd mewn cyllid cyfalaf i wireddu hyn. Fodd bynnag, dim ond un rhan o'r ateb yw rhoi to dros ben rhywun – mae yr un mor bwysig i sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth mae arnynt ei hangen i gynnal eu cartrefi ac osgoi digartrefedd yn y dyfodol.

Mae gwasanaethau ym meysydd digartrefedd a chymorth tai'n cwmpasu ystod o wasanaethau person-ganolog a luniwyd i helpu unigolion i fyw'n annibynnol ac osgoi digartrefedd. Mae hyn yn mynd ymhellach na dim ond darparu cysgod ffisegol trwy fynd i'r afael â heriau isorweddol megis trawma, salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau, neu drallod ariannol. Mae'r gwasanaethau'n ymestyn o gymorth tenantiaeth a llochesi mewn argyfwng i lety â chymorth a chyngor ar faterion tai, a darparu offer, sgiliau a hyder fel bod modd i bobl gynnal a chadw cartref mewn modd diogel.

Mae'r gwasanaethau hyn yn holl bwysig i helpu awdurdodau lleol yn y gwaith o atal a lleddfu digartrefedd, yn cynnwys cefnogi pobl sy'n gadael llety dros dro, ac atal pobl rhag bod angen y math hwnnw o lety yn y lle cyntaf. Fe fyddant yn bwysicach fyth yn ystod cyfnod gweithredu'r Ddeddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026.

Y trawma a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â digartrefedd

Mae llawer o bobl sy'n ddigartref wedi cael profiadau trawmatig, naill ai yn ystod eu plentyndod neu fel oedolion. Mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru'n dangos bod 50% o'r rhai sy'n ddigartref wedi dioddef 4 neu ragor o Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod, o'u cymharu ag 11% o boblogaeth Cymru'n gyffredinol. Mae profiadau o dlodi, cam-drin, trais ac ecsploetio'n gyffredin iawn ymhlith pobl sy'n ddigartref yn rheolaidd, gyda phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'n dod i'r golwg o ganlyniad i drawma ac ymyleiddio. Dyna pam y mae gwasanaethau cymorth mor bwysig. Maent yn darparu cymorth person-ganolog, trawma-wybodus i helpu pobl godi allan o ddigartrefedd, adfer o drawma, ac adeiladu'r hyder a'r sgiliau mae arnynt eu hangen i fyw bywydau llawn yn eu cymunedau.

Sut y caiff gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai eu hariannu?

Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau sy'n atal a lleddfu digartrefedd yn cael eu hariannu drwy'r **Grant Cymorth Tai** (GCT) a'r **Grant Atal Digartrefedd** (GAD). Fel arfer, mae'r grantiau hyn yn ymddangos yng nghyllideb Llywodraeth Cymru dan y **llinell gyllideb Rhoi Cymorth ac Atal Digartrefedd**, o fewn y Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol.

Grant Cymorth Tai (GCT)


Mae'r GCT yn ariannu'r mwyafrif mawr o'r gwasanaethau cymorth yn gysylltiedig â digartrefedd a thai yng Nghymru, yn cynnwys cymorth tenantiaeth, llety â chymorth, llochesi rhag cam-drin domestig, Tai yn Gyntaf, a llawer mwy. Caiff yr arian ei ddosbarthu trwy grant a ddynodwyd i awdurdodau lleol, sy'n comisiynu gwasanaethau'n seiliedig ar yr angen lleol. Mae'r gwasanaethau hyn yn chwarae rhan allweddol i atal digartrefedd, gan helpu pobl sydd mewn perygl o gael eu troi allan i oresgyn heriau ac aros yn eu cartrefi. Mae hefyd yn darparu ystod o lety argyfwng, a llety â chymorth, ar gyfer y rhai sy'n ddigartref neu sy'n dianc rhag camdriniaeth a thrais. Mae'r gwasanaethau hyn yn holl bwysig wrth helpu awdurdodau lleol i ymateb i anghenion pobl, a chwrdd â'u rhwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu llety a chymorth.

Grant Atal Digartrefedd (GAD)

Dosberthir yr GAD gan Lywodraeth Cymru i ariannu gwasanaethau hanfodol i atal digartrefedd, yn cynnwys y gwasanaeth cenedlaethol ar gyngor tai (a weithredir gan Shelter Cymru) a roddodd gymorth i bron 12,000 o aelwydydd yn 2024/25, gan helpu i atal digartrefedd mewn 90% o'r achosion, gyda 60% yn parhau i aros yn eu cartref gwreiddiol. Mae'r grant hefyd yn ariannu gwasanaethau allweddol eraill, megis Tai yn Gyntaf a gwasanaethau digartrefedd i bobl ifanc, gan helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i atal a lleddfu digartrefedd.

Cymorth holistaidd ar raddfa eang

Yn ein harolwg diweddar o 277 o weithwyr rheng flaen ym meysydd digartrefedd a chymorth tai, holwyd hwy am y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â hwy fel rhan o'u rôl. Dangosai'r data yn union pa mor aml-haenog a chymhleth yw eu rolau – ac effaith eang y gwaith hwn nid dim ond ar dai a digartrefedd ond hefyd ar iechyd, lles ariannol, diogelwch, addysg a gwaith.



Yr allwedd i atal a lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus

Mae'r holl weithgareddau uchod yn cael effaith sylweddol ar y modd mae pobl yn rhyngweithio â'r gwasanaethau cyhoeddus. P'un ai a yw hyn drwy wneud llai o ddefnydd o'r gwasanaethau argyfwng, neu gefnogi pobl i gael gwell rheolaeth dros eu hiechyd meddwl a chorfforol, mae gwaith y gweithwyr cymorth ym meysydd digartrefedd a chymorth tai yn lleihau'r pwysau ar y systemau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol. Mewn ymchwil a wnaed gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd, canfuwyd fod pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau GCT yn arbed £1.40 net i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn seiliedig ar gyllideb gyfredol o £204m, mae hyn yn cyfateb i:

- **Arbediad o £512m i'r gwasanaethau cyhoeddus**
- **Arbediad o £237m i'r gwasanaeth iechyd**
- **Arbediad o £206m i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol**
- **Arbediad o £82m i'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol**

Mae pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau GCT yn rhoi arbediad net o £1.40 i wasanaethau cyhoeddus

Sut y cyflawnir yr arbedion hyn?

- Lleihau'r galw ar wasanaethau ysbytai ac ambiwlansys
- Helpu pobl i gael gwell rheolaeth dros eu hiechyd meddwl
- Helpu pobl i oresgyn problemau gyda cham-drin sylweddau
- Helpu teuluoedd i ddianc rhag cam-drin domestig
- Lleihau ail-droseddu, gan wella diogelwch cymunedol
- Galluogi pobl a chanddynt anableddau dysgu i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau
- Lleihau risgiau diogelwch a phwysau ar wasanaethau i blant

Pwysau ariannol a wynebir gan wasanaethau



Gwasanaethau sy'n rhedeg ar golled

Disgwylir y bydd gwasanaethau a gomisiynir drwy'r GCT a'r GAD yn cael eu hariannu'n llawn.

Mae **83%** o'r darparwyr yn rhedeg gwasanaethau ar golled

Fodd bynnag, mae yna gyfran sylweddol o sefydliadau nad ydynt yn derbyn digon o arian i dalu'r costau llawn sydd ynghlwm â rhedeg eu gwasanaethau.

Eleni, dywedodd 83% o'r darparwyr eu bod yn rhedeg gwasanaethau a ariennir gan GCT neu GAD ar golled. Mae hyn yn cymharu â 66% y llynedd.

"Er ein bod yn croesawu a gwerthfawrogi'r cynnydd yn yr GCT a dderbyniwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, nid yw'r arian yn talu holl gostau'r prosiect (mae'n rhaid i ni eu hwynebu a'u hariannu ein hunain). Mae ariannu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn broblem, ac nid yw pwysau megis y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol y cyflogwr wedi helpu gyda'r pwysau ar y gyllideb."

Sut mae darparwyr cymorth yn talu'r costau nas ariennir?

Mae **57%** yn defnyddio'u cronfeydd wrth gefn i gynnal gwasanaethau

Yn ogystal, gofynnwyd i ddarparwyr rannu'r ffynonellau incwm a ddefnyddir i sybsideiddio'r gwasanaethau hynny nad ydynt yn derbyn cyllid digonol i dalu costau rhedeg y gwasanaethau.

Dywedodd 57% o'r ymatebwyr fod cronfeydd wrth-gefn eu sefydliad yn cael eu defnyddio i sybsideiddio'r gwasanaethau hyn, ac mae honno'n sefyllfa gwbl anghynaladwy. Mae 54% yn defnyddio incwm o rannau eraill o'r sefydliad, ond mae hyn yn annhebygol o fod yn opsiwn i nifer o ddarparwyr a chanddynt ddim ond ychydig o ffrydiau ariannu eraill, os o gwbl. Dywedir wrthym yn barhaus nad yw byrddau ac uwch-dimau arweiniol yn barod i barhau i sybsideiddio gwasanaethau y dylid eu hariannu'n llawn gan yr GCT neu'r GAD.

Ydych chi wedi gorfod sybsideiddio eich gwasanaethau o unrhyw un o'r ffynonellau canlynol?	
Cronfeydd wrth gefn	**57%**
Incwm o rannau eraill o'r sefydliad (e.e. incwm rhent, incwm hyfforddiant)	**54%**
Refeniw o gynlluniau codi arian	**26%**

Am ba hyd y gall darparwyr barhau i sybsideiddio gwasanaethau?

Gyda 83% o'r sefydliadau'n datgan bod gwasanaethau'n rhedeg ar golled, a 57% yn defnyddio'u cronfeydd wrth-gefn i sybsideiddio gwasanaethau, gofynnwyd i ddarparwyr am ba hyd y gallai hyn barhau. Roedd yr atebion yn amrywio o 0 i 3 blynedd, gyda **chyfartaledd o 1.5 blwyddyn.**

"Hon yw'r flwyddyn olaf i ni allu defnyddio'n cronfeydd wrth-gefn i sybsideiddio contractau."

"Os na chawn ni gynnydd chwyddiannol yn 2027/28, yna bydd yn amhosibl gwneud hynny wrth fynd i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd hyd yn oed cynnig gwastad GCT / GAD ar gyfer y flwyddyn nesaf yn achosi anawsterau ariannol sylweddol gan fod yr holl gostau eraill yn parhau i godi, yn cynnwys cyfraddau teithio Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi."

"Mae ein cronfeydd wrth-gefn yn gostwng i'r lefel isaf, felly ni allwn ymdopi â blwyddyn arall o ddiffyg."

"Ar hyn o bryd, mae'r diffyg o £21,000 am 2026/27 yn cael ei dalu o gronfeydd wrth-gefn sefydliadol. Gan ein bod yn disgwyl pwysau ariannol o wahanol gyfeiriadau, gwyddom nad yw hyn yn gynaliadwy yn yr hir-dymor a'i fod yn cynyddu'r risg sefydliadol."

Cynnydd yn y galw ac mewn cymhlethdod



Cynnydd yn y galw ac mewn cymhlethdod


Mae darparwyr cymorth a chomisiynwyr awdurdodau lleol wedi adrodd yn gyson am gynnydd yn y galw am anghenion cymorth pobl, a chymhlethdod yr anghenion hynny, ers y pandemig.


Y galw am wasanaethau

Yn ein harolwg o ddarparwyr cymorth, **dywedodd 68% fod cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau ers y llynedd.**

Mae hyn ar ben y 86% oedd wedi datgan cynnydd yn y galw yn 2025/26, 91% yn 2024/25, a 81% yn 2023/24.

68%
o'r ymatebwyr wedi adrodd am gynnydd yn y galw







Cymhlethdod yr anghenion cymorth

Dangosodd yr arolwg hefyd fod **83% o'r ymatebwyr wedi adrodd am gynnydd yng nghymhlethdod y gofal ers y llynedd.**

Mae hyn yn dilyn y 97% a adroddodd am gynnydd yn 2025/26, 94% yn 2024/25, a 94% yn 2023/24.

83%
yn adrodd am gynnydd yng nghymhlethdod y gofal





Beth yw 'cynnydd mewn cymhlethdod'?

Mae'r sylwadau isod yn tanlinellu natur y cynnydd hwn mewn cymhlethdod, gyda chyfeiriadau niferus at iechyd meddwl, defnyddio sylweddau, achosion o ddiogelu, arfau, bygwth staff, hunan-niweidio a hunan-laddiad. Mae cynnydd mewn cymhlethdod yn galw am gymorth mwy dwys, lefelau uwch o ran sgiliau, mwy o amser staff, rheoli mwy o risg, a chysylltu â mwy o wasanaethau cyhoeddus. Caiff effaith sylweddol hefyd ar les y staff, effaith gorweithio, recriwtio a chadw staff – ac mae hyn oll yn cael effaith andwyol ar gysondeb ac ansawdd y modd o gyflenwi'r gwasanaeth.

"Mae cleientiaid yn arddangos mwy a mwy o anghenion aml-gymhlethdod sy'n gofyn am ragor o gymorth i ymdopi â nifer o wahanol broblemau. Mae hyn yn effeithio ar amser y staff. Gan fod y llwythi achosion eisoes yn uchel, mae'r cynnydd yn y galw a'r cymhlethdodau'n gwneud hyn yn anoddach ar y staff."

"Rydym yn gweld mwy a mwy o broblemau mewn perthynas â iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ymhlith y preswylwyr. Mae hyn yn cynyddu'r risg i ddiogelwch o fewn y gwasanaethau, ac yn rhoi straen ar wydnwch y staff. Mor ddiweddar â'r mis diwethaf, cafodd aelod o'r staff anafiadau difrifol pan ymosododd un o'r preswylwyr arno."

"Yn ogystal â'r cynnydd sylweddol o ran cymhlethdod, rydym hefyd yn gweld risg cynyddol fwy i'r hunan ac eraill, mwy o synio gweithredol am hunanladdiad, mwy o gario arfau, a chynnydd yn y diffyg i hunan-reoli'n emosiynol."

Arolwg o 277 o weithwyr rheng flaen:

- Dywedodd 97% fod angen cynyddu capasiti gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai, er mwyn gallu cwrdd â'r galw am, ac â chymhlethdod, yr anghenion gofal yn eu hardal leol.
- Dywedodd 56% eu bod 'wastad' neu'n 'aml' yn cael profiad o ddigwyddiad trawmatig neu drawma dirprwyol mewn wythnos arferol. Dywedodd 38% 'weithiau'. Dywedodd 0% 'byth'.
- Dywedodd 89% fod angen darparu mwy o adnoddau / cymorth ar gyfer gweithwyr rheng flaen i'w helpu i ymdopi â'r trawma neu'r trawma dirprwyol hwn.

Codi darnau'r gwasanaethau statudol

Gwnaed hefyd nifer o sylwadau ynghylch gwasanaethau ym maes digartrefedd a chymorth tai sy'n gorfod cefnogi pobl drwy sefyllfaoedd cynyddol gymhleth lle nad yw gwasanaethau statudol wedi darparu'r cymorth mae ar bobl ei angen. Yn rhy aml, rydym yn clywed am staff rheng flaen yn gorfod cefnogi pobl drwy argyfyngau yn eu bywydau, gan gario baich sy'n mynd y tu hwnt i'w disgrifiadau swydd a'u horiau gwaith.

"Oherwydd prinder y gwasanaethau allanol, mae cydweithwyr yn gorfod darparu ystod ehangach o gymorth nag y comisiynir y prosiect i'w ddarparu."

"Rydym yn gweld cwsmeriaid a chanddynt anghenion hynod heriol, yn enwedig o amgylch iechyd meddwl. Mae cael mynediad at gymorth Iechyd Meddwl gan wasanaethau statudol yn anodd iawn."

"Rydym hefyd yn gweld cynnydd mewn digwyddiadau difrifol, yn cynnwys rhai'n gysylltiedig ag atglafychiad iechyd meddwl, hunan-niweidio, a chamddefnyddio sylweddau. Gall llai o fewnbwn a chapasiti o du rhai gwasanaethau statudol arwain at gydweithwyr ym maes tai â chymorth yn rheoli sefyllfaoedd cynyddol gymhleth am gyfnodau hirach ac â llai o gymorth arbenigol allanol. Mae hyn yn gosod gofynion llawer trymach ar gydweithwyr mewn perthynas â rheoli risg, diogelu, a gweithio mewn dull aml-asiantaeth, yn ogystal â chynyddu effaith emosiynol y gwaith."

Astudiaeth Achos: Darparwr cymorthr

Ers 2023, mae trothwyon cymorth wedi cynyddu'n sylweddol. Mae dadansoddiad mewnol yn dangos y canlynol:

- Gostyngiad o 46% yn yr achosion lefel-is.
- Cynnydd o 69% yn yr achosion cymhlethdod-canolog.
- Cynnydd o 72% yn yr achosion cymhlethdod-uchel sy'n galw am 3+ awr o gymorth yr wythnos

Cyflog teg a chymorth i weithwyr rheng flaen



Cyflog teg a'r argyfwng costau byw

Mae gweithwyr ym maes digartrefedd a chymorth tai yn gwneud gwaith hynod heriol a sgilgar, ond mae'r cyfyngiadau ariannol yn golygu nad ydynt wedi derbyn y wobr a'r gydnabyddiaeth maent yn eu haeddu.

Cydnabuwyd hyn yn eang dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, yn yr adroddiad Anawsterau yn y Rheng Flaen, a chan adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar fater cymorth tai ar gyfer pobl fregus.


Talu ac ariannu'r Cyflog Byw Gwirioneddol


Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, darparodd Llywodraeth Cymru rai codiadau ariannol i'r CGT a rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ddefnyddio'r rhain i gynyddu cyflogau gweithwyr rheng flaen, gyda'r nod o sicrhau bod pob gweithiwr rheng flaen yn derbyn tâl sydd o leiaf yn gyfystyr â'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Rydym wedi bod yn monitro pa gyfran o sefydliadau sy'n talu'r CBG, ac a yw'r gost yma'n cael ei thalu'n llawn gan yr CGT / GAD. Mae'r data o'r arolwg a gynhaliwyd eleni'n dangos y canlynol:

- **Mae 90% o'r darparwyr cymorth yn talu'r CBG**
- **Ond dim ond 35% ohonynt sy'n derbyn cyllid digonol i dalu cost y CBG**

Mae hyn yn golygu nad yw 65% o'r darparwyr cymorth yn derbyn digon o gyllid i dalu costau llawn y CBG, er mai hyn oedd bwriad polisi llywodraeth flaenorol Llywodraeth Cymru. Cynyddodd y CBG o 6.7% y llynedd, ond dim ond 3.3% oedd y cynnydd yng nghyllid yr GCT a'r GAD am 2026/27.





"Rydym eisoes yn ariannu ychydig dros £21,000 o'r arian wrth gefn ar gyfer contractau GCT er mwyn gallu talu ein gweithlu'n unol â Chyfraddau'r Cyflog Byw Gwirioneddol a osodwyd ar 1 Ebrill 2026 ar £13.45. Mae'n adlewyrchu disgwyliadau'r cyllidwyr i dalu'r cyfraddau hyn. Mae'r diffyg yng nghyllid yr GCT o £21,000 y cyfeirir ato am 2026/27 yn gyfystyr â tua 2%–2.5%."

Y codiad sydd ei angen i dalu'r CBG a chynnal gwahaniaethu

O ystyried y data uchod – sy'n dangos nad yw'r mwyafrif o'r darparwyr gwasanaeth yn derbyn arian digonol i allu talu costau llawn y CBG a'r gwahaniaethu ar gyfer rheolwyr uniongyrchol– mae'n amlwg bod angen mwy o arian i alluogi talu'r CBG mewn blynyddoedd i ddod. Gofynnwyd i ddarparwyr cymorth amcangyfrif pa ganran o godiad mewn cyllid fyddai'n angenrheidiol er mwyn gallu talu'r CBG newydd a chynnal gwahaniaethu priodol ar gyfer rheolwyr uniongyrchol.

Ar gyfartaledd, dywedodd darparwyr cymorth y byddai arnynt angen codiad o 15.3% i dalu'r costau hyn.

Effaith cyflogau isel ar weithwyr rheng flaen

Yn ddiweddar, buom yn cynnal arolwg o 277 o weithwyr cymorth rheng flaen yn y gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru. Holwyd hwy am eu lefel cyflog, a dyma ganlyniad y data:

- **Derbyniai 15% o'r ymatebwyr lai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol**
- **Derbyniai 67% lai na £28,000 y flwyddyn**
- **Derbyniai 95% lai na'r cyflog canolrifol i Gymru o £35,796**

Yn anffodus, mae cyflogau isel yn nodwedd hir-dymor o'r gwaith hwn, ac yn sicr nid yw'n adlewyrchu cymhlethdod y rôl, na'r sgiliau a'r wybodaeth a ddangosir gan y gweithwyr hyn o ddydd i ddydd.

"Dylai'r gwaith rydym yn ei wneud gael ei adlewyrchu yn y tâl; yn aml iawn rydym yn rhoi ein bywydau personol mewn perygl er mwyn rhoi cymorth i eraill, rydym yn aml mewn sefyllfaoedd peryglus ac mewn amgylcheddau arbed bywydau, ac eto rydym yn derbyn y lleiafswm cyflog; rydym yn cario llawer o gyfrifoldeb, ac eto nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu."

"Rydym yn gorfod bod yn weithwyr cymorth ar bob lefel – gweithwyr cymdeithasol, cymorth iechyd meddwl, arbenigwyr ariannol – ac yn sicr ddigon nid yw'r cyflog yn adlewyrchu'r rolau rydym yn gorfod eu rheoli."


Yr argyfwng costau byw

Gofynnwyd i'r gweithwyr rheng flaen hefyd a ydynt yn pryderu am eu gallu i dalu eu costau byw o ddydd i ddydd. Mae'r ffigurau'n llwm. Er eu bod yn gweithio i helpu miloedd o bobl eraill yng Nghymru i arbed a lleddfu digartrefedd:

- **Mae 63% wedi bod yn pryderu am dalu eu rhent / morgais yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**
- **Mae 72% wedi bod yn pryderu am dalu eu biliau cyfleustodau**
- **Mae 66% wedi bod yn pryderu am dalu am fwyd**

"Mae fy nghydweithwyr a minnau, sy'n byw mewn lleoedd ar rent, yn ddim ond mis i ffwrdd o fod yn ddefnyddwyr gwasanaeth ein hunain ar unrhyw adeg."

"Mae nifer o'r staff yn gorfod gweithio mewn dwy swydd er mwyn talu biliau yn sgil yr argyfwng costau byw presennol. Mae hyn yn golygu bod gennym lai o amser a gallu i ymlacio ac adfer."



"Mae gweithwyr rheng flaen yn chwarae rôl hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau angenrheidiol yn rhedeg, ac eto mae llawer yn cael trafferth i ymdopi â'r cynnydd mewn costau byw. Nid yw cyflog bob amser yn adlewyrchu'r lefel o gyfrifoldeb, pwysau, a'r galwadau emosiynol sy'n rhan annatod o waith rheng flaen. Ar yr un pryd, gall codiadau mewn rhent, bwyd, ynni, cludiant, a chostau eraill o ddydd i ddydd ei gwneud yn anodd ymdopi'n ariannol. Teimlaf y dylai gweithwyr rheng flaen dderbyn tâl teg sy'n adlewyrchu pwysigrwydd eu gwaith a'r costau byw cyfredol, fel ei gilydd. Byddai gwell tâl, amodau gwaith rhesymol, a mynediad at gymorth, yn helpu i leihau'r pwysau ariannol a gwneud gwaith rheng flaen yn fwy cynaliadwy a buddiol."

Yr hyn y mae ar wasanaethau ei angen yn 2027/28




Edrych i'r dyfodol: Cyllideb Cymru 2027/28

Gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaethau ym meysydd digartrefedd a chymorth tai adlewyrchu ar yr hyn roeddynt wedi ei ddweud wrthym am y cyfyngiadau cyllido dros y bymtheg mlynedd ddiwethaf, yn ogystal â'r cynnydd mewn galw a'r cymhlethdodau sy'n wynebu gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt rannu'r hyn mae'n ei olygu i'w sefydliadau, yn cynnwys y staff sy'n cyflenwi cymorth mor bwysig ac, yn bwysicaf oll, y bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hynny.

Fel y dangosir yn y graff isod, os na fydd cyllideb nesaf Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid digonol, mae yna gonsýrn gwirioneddol ynghylch gallu gwasanaethau i recriwtio a chadw staff o safon uchel, a chynnal y safonau uchel sy'n hanfodol i sicrhau ansawdd a diogelwch.

Ac ystyried y cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu gwasanaethau, a'r cynnydd mewn galw a chymhlethdod, pa mor bryderus ydych chi ynghylch y materion isod:



"Nid yw'r lefelau cyllido presennol yn rhoi adlewyrchiad llawn o wir gost y gwaith o ddarparu gwasanaethau diogel o safon uchel. O ganlyniad, mae yna berygl gwirioneddol y bydd gwasanaethau'n dod yn fwyfwy anodd i'w cynnal, gyda goblygiadau posibl o ran capasiti, amserau aros, lles staff, a'r gallu i ymateb yn effeithiol i gynnydd yn y galw."

Pa lefel o gynnydd ariannol y mae ar gwasanaethau ei angen?

Er mwyn rhoi arweiniad i benderfyniadau Llywodraeth Cymru a gwaith craffu'r Senedd ar y gyllideb am 2027/28, gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaethau ym meysydd digartrefedd a chymorth tai i amcangyfrif pa ganran o gynnydd mewn cyllid y byddai arnynt ei angen i gynnal lefel y ddarpariaeth gwasanaeth a thalu'r holl gostau.

Mae darparwyr cymorth yn amcangyfrif bod arnynt angen cynnydd o 16% er mwyn gallu cynnal lefelau presennol y ddarpariaeth gwasanaeth, a thalu'r cyfan o'r costau cysylltiedig.

Rydym felly'n eiriol dros gynnydd o 16% i'r GCT a'r GAD, er mwyn gallu cynnal a chadw'r lefelau presennol o ddarparu gwasanaeth. Fodd bynnag, byddai angen codiadau pellach i gwrdd â gofynion nad ydynt yn cael eu cyflenwi.

Modelu effaith senarios cyllido posibl ar gyfer 2027/28

Buom yn gofyn hefyd i ddarparwyr gwasanaethau GCT / GAD am eu hamcangyfrifon gorau o'r effaith a gaed gan dair senario cyllideb wahanol ar gyfer 2027/28:


- Cynnydd yn y gyllideb sy'n unol â chwyddiant
- Cyllideb arian-wastad
- Toriad o 3% yn y gyllideb

Mae'r graffiau isod yn dangos effaith debygol y tair senario yma ar gapasiti gwasanaethau, staffio, a'r gallu i helpu darparwyr cymorth i gyflenwi contractau.

Effaith y gyllideb GCT / GAD yn cynyddu gyda chwyddiant

- **Byddai 23% yn debygol o orfod lleihau capasiti'r gwasanaeth**
- **Byddai 20% yn debygol o rewi'r broses recriwtio**
- **Byddai 18% yn debygol o beidio â bidio am gytundebau newydd neu rai a ail-dendrwyd**
- **Byddai 10% yn debygol o wneud staff yn ddi-waith**
- **Byddai 13% yn debygol o orfod dychwelyd cytundebau sy'n bodoli eisoes**

Os ceir cynnydd yn y gyllideb GCT / GAD yn unol â chwyddiant y flwyddyn nesaf, pa mor debygol yw hi y bydd arnoch angen i chi:



Fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, mae gwasanaethau eisoes yn rhedeg ar golled, ac yn dibynnu ar eu harian wrth gefn i sybsideiddio gwasanaethau. Oherwydd hyn, mae hyd yn oed cynnydd sy'n unol â chwyddiant yn gosod heriau i gynaliadwyedd gwasanaeth, ac yn arwain at gyfran fechan o wasanaethau'n cael eu gorfodi i ymgymryd â mesurau pellach i dorri costau, neu roi'r gorau i darparu rhai gwasanaethau.


Fodd bynnag, bydd effaith cyllideb arian-gwastad neu doriad o 3% i'r cyllidebau GCT a GAD yn arwain at ganlyniadau llym...

Effaith cyllideb GCT / GAD arian-gwastad

Collir tua **243-324** o swyddi

- Byddai 70% yn debygol o orfod lleihau capasiti'r gwasanaeth
- Byddai 70% yn debygol o rewi'r broses recriwtio
- Byddai 65% yn debygol o beidio â bidio am gytundebau newydd neu rai a ail-dendrwyd
- Byddai 51% yn debygol o wneud staff yn ddi-waith
- Byddai 38% yn debygol o orfod dychwelyd cytundebau sy'n bodoli eisoes
- Gostyngiad o 8.1% yn y gweithlu - tua 243-324 o bobl yn colli'u swyddi

Os na cheir cynnydd yn y gyllideb GCT / GAD y flwyddyn nesaf, pa mor debygol yw hi y bydd angen i chi:



Effaith toriad o 3% i'r gyllideb GCT / GAD

Collir tua **417-556** o swyddi

- Byddai 83% yn debygol o orfod lleihau capasiti'r gwasanaeth
- Byddai 75% yn debygol o rewi'r broses recriwtio
- Byddai 73% yn debygol o beidio â bidio am gytundebau newydd neu rai a ail-dendrwyd
- Byddai 66% yn debygol o wneud staff yn ddi-waith
- Byddai 47% yn debygol o orfod dychwelyd cytundebau sy'n bodoli eisoes
- Gostyngiad o 13.9% yn y gweithlu - tua 417-556 o bobl yn colli'u swyddi

Os ceir 3% o doriad yn y contractau GCT / GAD y flwyddyn nesaf, pa mor debygol yw hi y bydd angen i chi:

